Aeth rhai o ddisgyblion blwyddyn 4 ynghyd â Mr John i aros yng Nghanolfan Addysgol Kinsgwood am rai diwrnodau ganol Ionawr. Cawsant hwyl a sbri yn ymwneud ag amrywiol weithgareddau.

Daeth cwmni dawns Diversions i gymryd sesiwn gyda Bl. 5/6. Aeth pawb ati yn frwdfrydig i gymryd rhan yn y gweithgaredd gan weithio fel grŵp ac yn unigol. Roedd pawb wedi mwynhau gan gynnwys Mr John a Mrs Phillips!

Bu Bl. 5/6 mewn cysylltiad â disgyblion o Japan dros y flwyddyn newydd gan gyfnewid lluniau a llythyrau. Yn sgîl hyn crewyd diddordeb newydd yn y wlad a'i phobl. Yna cysylltodd Mrs Carol Izri â'r ysgol a holi a fyddai diddordeb gennym mewn croesawu Junici Sasaki, athro Saesneg o Japan, i ymweld â'r ysgol gan roi peth o hanes a thraddodiadau ei wlad, roedd yn gyfle rhy dda i'w wrthod. Mae Junici Sasaki bellach yn ymweld â'r ysgol bob dydd Llun.

Bob nos Iau ar ôl ysgol mae clwb celf yn cyfarfod yng nghwmni Mrs Tracey Smith a Mrs Pauline Stickland. Mae grŵp bach o blant wedi bod yn mynychu'r clwb ac wedi cael cyfle i beintio mewn dyfrlliw. Efallai y bydd gyda ni arddangosfa o'u gwaith cyn yr haf!

Daeth diwedd cyfnod arall wrth i ni ffarwelio â Miss Owen a Miss Hughes, y darpar athrawon a fu gyda ni am saith wythnos. Diolchwn iddynt am eu hynawsedd bob amser a dymunwn yn dda iddynt yn eu ysgol newydd ar ôl y Pasg. Croeso i Miss Nia Thomas o Goleg y Drindod Caerfyrddin i dreulio cyfnod gyda dosbarth Mrs James.